

Adroddiad Rheoleiddiol Blynyddol CCAUC

2019/2020



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Rhagair	2
Adran 1 – Cyflwyniad	3
Adran 2 – Cynlluniau Mynediad a Ffioedd	5
2.1 Cyflwyniad	5
2.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd (2019/20)	5
2.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau	7
2.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd	8
2.5 Datblygu Prosesau Rheoleiddio	8
Adran 3 – Ansawdd yr Addysg	9
3.1 Cyflwyniad	9
3.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl	9
3.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau	10
3.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd	11
Adran 4 – Materion Ariannol Sefydliadau a Reoleiddir	12
4.1 Cyflwyniad	12
4.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2019/20	12
4.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau	14
4.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd	14
Adran 5 – Datganiad Ymyrraeth	15
Adran 6 – Datganiad Sicrwydd	16

Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno'n hadroddiad rheoliadol blynyddol sy'n amlinellu sut y gwnaethom gyflawni'n swyddogaethau rheoleiddio yn ystod y flwyddyn academaidd 2019/20.

Cymeradwywyd yr adroddiad gan ein Cyngor ar ôl i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ein Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'n Pwyllgor Rheoleiddio graffu arno. Caiff manylion y swyddogaethau rheoleiddio y gwnaethom eu cyflawni ers 31 Gorffennaf 2020 eu cynnwys mewn adroddiadau a gyhoeddir yn y dyfodol. Mae ein pwerau rheoleiddio yn benodol ac maent wedi'u cyfyngu i agweddau penodol ar weithgarwch sefydliadau a reoleiddir; felly gallwn ymyrryd â materion sy'n dod o fewn cwmpas ein swyddogaethau rheoleiddio. Fel rhan o arfer ein swyddogaethau rheoleiddio ffurfiol, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r sector i wella arferion.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r flwyddyn academaidd gyntaf y cafodd pandemig y coronafeirws (Covid-19) effaith arni. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar sefydliadau a reoleiddir, yn yr un modd â phob sefydliad arall. [Rydym yn canmol ein sefydliadau a reoleiddir am ymateb mor gyflym i'r heriau datblygol, am ddarparu cymorth i'w myfyrwyr yr oedd angen mawr amdano, ac am gefnogi ymateb cyffredinol Cymru i'r pandemig.](#)

Gan gydnabod yr effaith ar ein sefydliadau a reoleiddir, rydym wedi symleiddio'n prosesau rheoleiddio er mwyn galluogi sefydliadau i ganolbwyntio ar eu myfyrwyr, eu staff a'u cymunedau. Nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad hwn; mae'n seiliedig ar gyngor a geisiwyd gan ein pwyllgorau ac yn dilyn proses gwneud penderfyniadau y bu partneriaid, yn enwedig Llywodraeth Cymru, UCM Cymru a'r sefydliadau eu hunain, yn rhan ohoni. Er ein bod wedi diwygio'n dulliau rheoleiddio ffurfiol, rydym wedi cadw mewn cysylltiad agos â'n sefydliadau a reoleiddir, yn enwedig ein prifysgolion, yr ydym yn gweithredu fel y prif reoleidiwr drostynt. Mae hyn wedi'n galluogi i sicrhau'r sicrwydd rheoliadol angenrheidiol a gwneud yn siŵr, yn enwedig, bod gennym ddealltwriaeth gyfredol o sefyllfa'r sefydliadau.

Dros y blynyddoedd academaidd nesaf, byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar fonitro, herio a chefnogi'n sefydliadau, gan gynnwys eu rôl o ran cyflawni adferiad economaidd. Byddwn yn parhau i adolygu'n prosesau rheoleiddio, gan ddysgu gwersi o'r newidiadau a wnaethom eleni er mwyn sicrhau bod gennym sicrwydd rheoliadol mewn modd cymesur ac eto trylwyr. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i sefydliadau ganolbwyntio ar gyflawni er budd eu myfyrwyr, eu staff, eu cymunedau ac ar gyfer Cymru.

Bydd y flwyddyn nesaf hefyd yn un bwysig ar gyfer staff CCAUC gan y disgwylir y caiff y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ei osod yn y Senedd. Mae gan Gymru lawer i'w ennill o sefydlu sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a reoleiddir ac a ariennir gan gorff unigol o hyd braich. Mae'n hanfodol bwysig y caiff y ddeddfwriaeth ei datblygu mewn ffordd sy'n sicrhau y sefydlir system gydlynol, integredig o safon uchel sydd â'r cyfuniad angenrheidiol o reoleiddio trylwyr a chefnogaeth sefydliadol. Wrth adolygu'n prosesau rheoleiddio, byddwn yn parhau i gynnal golwg eglur ar gynigion ar gyfer system reoleiddio newydd, gan gynghori a chefnogi'r llywodraeth lle bo'n briodol, er mwyn sicrhau trawsnewidiad llyfn i ddarparwyr i'r system newydd.



Rob Humphreys
Cadeirydd Dros Dro

Adran 1 – Cyflwyniad

- 1.1 Cafodd Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015) gydsyniad brenhinol ar 12 Mawrth 2015, gan wella rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) fel rheoleiddiwr. Daeth Deddf 2015, a ategir gan chwe chfres o reoliadau, i rym yn raddol yn ystod cyfnod pontio, a ddaeth i ben pan ddaeth y Ddeddf i rym yn llawn ar 1 Awst 2017.
- 1.2 Mae Deddf 2015 yn pennu dyletswyddau penodol i CCAUC yn y meysydd canlynol:
 - Terfynau ffioedd myfyrwyr,
 - Gwella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch,
 - Ansawdd addysg,
 - Materion ariannol.
- 1.3 Mae'n ofynnol i sefydliadau a reoleiddir o dan y Ddeddf gydymffurfio â chyfarwyddiadau CCAUC yn y meysydd hyn. Caiff ymreolaeth sefydliadol ei datgan yn eglur yn y Ddeddf ac mae dyletswyddau a phwerau ymyrryd CCAUC wedi'u cyfyngu i'r meysydd hynny sydd wedi'u pennu yn y Ddeddf yn unig, fel y'u nodir yn y paragraff uchod.
- 1.4 Nid yw pwerau CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach ac 1992 o fewn cwmpas yr adroddiad hwn.
- 1.5 Un o'r disgwyliadau sy'n ofynnol gan CCAUC yw ei fod yn darparu i Weinidogion Cymru adroddiad blynyddol ar y modd y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf ar ddiwedd pob cyfnod adrodd. Yr adroddiad hwn yw'r trydydd i ni ei gyflwyno o dan y gofyniad hwn a bydd yn berthnasol i'r cyfnod adrodd rhwng 1 Awst 2019 a 31 Gorffennaf 2020. Bydd swyddogaethau a gyflawnwyd ar ôl 31 Gorffennaf 2020, ond sy'n berthnasol i gynlluniau mynediad a ffioedd blaenorol, yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau diweddarach.
- 1.6 Mae ein hadroddiad wedi'i lunio'n unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Y disgwyliadau a nodir yn y cyfarwyddyd yw bod yr adroddiad blynyddol yn cynnwys y canlynol:
 - Esboniad o'r modd y mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau o dan:
 - a) Adran 7 – cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd,
 - b) Adran 15 – monitro a gwerthuso cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd Cynlluniau Mynediad a Ffioedd,
 - c) Adran 17 – asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir, ac
 - d) Adran 31 – monitro cydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol.
 - Canlyniadau'r gweithgareddau y bu CCAUC yn ymgymryd â hwy wrth gyflawni'r swyddogaethau a restrir uchod. Dylai hyn gynnwys crynodeb o'r canlynol:
 - a) ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd, eu cymeradwyo a'u gwrthod,
 - b) cydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â therfynau ffioedd a gofynion cyffredinol cynlluniau mynediad a ffioedd sydd wedi'u cymeradwyo,
 - c) yr adolygiadau asesu ansawdd a gynhaliwyd a chanlyniadau'r adolygiadau hynny
 - d) cydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â'r Cod.

- Manylion am unrhyw fethiannau ar ran sefydliadau a reoleiddir i gydymffurfio â gofynion y system reoleiddiol ac achosion lle mae CCAUC wedi defnyddio ei swyddogaethau ymyrryd o dan:
 - a) Adran 11 – cyfarwyddiadau ad-dalu a chydymffurfiaeth,
 - b) Adran 13 – cyfarwyddiadau mewn perthynas â methu cydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd cymeradwy,
 - c) Adran 19 – cyfarwyddiadau mewn perthynas ag ansawdd annigonol,
 - d) Adran 20 – mesurau eraill mewn perthynas ag ansawdd annigonol,
 - e) Adran 33 – cyfarwyddiadau mewn perthynas â methu cydymffurfio â'r Cod,
 - f) Adran 34 – mesurau eraill mewn perthynas â methu cydymffurfio â'r Cod,
 - g) Adran 37 – hysbysiad gwrthod cymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd newydd,
 - h) Adran 38 – dyletswydd CCAUC i dynnu cymeradwyaeth cynllun mynediad a ffioedd yn ôl os nad yw sefydliad a reoleiddir yn bodloni gofyniad adran 2(3)¹ mwyach, ac
 - i) Adran 39 – pŵer CCAUC i dynnu cymeradwyaeth cynllun mynediad a ffioedd yn ôl.

gan gynnwys manylion y camau gweithredu y mae CCAUC wedi'u rhoi ar waith i ddatrys y methiant rheoleiddiol dan sylw a'r cynnydd a wnaed gan y sefydliad a reoleiddir wrth roi'r camau gweithredu angenrheidiol ar waith; a
- Datganiad sicrwydd sy'n cynnwys trosolwg o gydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â'r system reoleiddiol sydd wedi'i datgan yn Neddf 2015 ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu risg.

1.7 Mae'r adroddiad hwn wedi'i drefnu'n dair prif bennod er mwyn adrodd yn erbyn y meysydd hynny y mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl inni eu trafod: Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, ansawdd addysg a materion ariannol. Ceir Datganiad Sicrwydd hefyd ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r system reoleiddio.

1.8 Drwy gydol yr adroddiad hwn byddwn yn cadarnhau a fu unrhyw fethiannau ar ran sefydliadau a reoleiddir i gydymffurfio â'r system reoleiddiol. Rydym wedi gweithredu mewn tair ffordd eang er mwyn gweld a fu unrhyw fethiannau o ran cydymffurfiaeth. Dyma'r tair ffordd o weithredu:

- Hunanadroddiadau gan sefydliadau a reoleiddir, bod hynny ar sail ad hoc neu drwy gylchoedd adrodd cynlluniedig,
- Cwynion a dderbynnir drwy system gwynion [CCAUC sydd wedi'i sefydlu](#) i wella ei rôl reoleiddio, a
- Gwaith monitro CCAUC, gan gynnwys monitro ffurfiol drwy ymgysylltu â sefydliadau a reoleiddir, trafodaethau â chyrrff allanol eraill neu fonitro systemau data.

Esbonnir y ffyrdd hyn o weithredu os yw hynny'n berthnasol ac yn ôl yr angen drwy gydol yr adroddiad.

1.9 Cyflwynir yr adroddiad hwn yng nghyd-destun pandemig Covid-19, sydd wedi cael effaith sylweddol ar ein ffordd o fyw. Nid yw darparwyr addysg uwch wedi gallu osgoi effeithiau'r pandemig, ac rydym [wedi diwygio ein prosesau rheoleiddio](#) er mwyn helpu sefydliadau i ymateb i'r sefyllfa ddigynsail hon a chefnogi eu myfyrwyr. Yn sgil lleihau'r baich rheoleiddio, rydym wedi ceisio canfod ffyrdd eraill i sicrhau bod sefydliadau'n parhau i fodloni disgwyliadau rheoleiddio. Nid ar chwarae bach yr ydym wedi gwneud y penderfyniad hwn i symleiddio prosesau, ac rydym wedi trafod y

¹ Yn ôl Adran 2 (3) Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 mae'n rhaid i ymgeisydd cynllun mynediad a ffioedd fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch, a rhaid iddo fod yn elusen.

diwygiadau hyn gyda'n Cyngor, gyda Phwyllgorau perthnasol, gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol, yn benodol UMC Cymru.

Adran 2 – Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae'n ofynnol i bob sefydliad yng Nghymru sy'n dymuno cael ei reoleiddio gan CCAUC fod â chynllun mynediad a ffioedd sydd wedi'i gymeradwyo gan CCAUC. Mae bod yn sefydliad a reoleiddir yn galluogi i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio cyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC (Statws Athro Cymwysedig) yn y sefydliad hwnnw gael cymorth myfyrwyr Cymru. Mae cynlluniau mynediad a ffioedd yn nodi lefelau ffioedd sefydliadau ar gyfer darpariaeth cyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC ar gyfer y flwyddyn academiaidd mae'r cynllun yn berthnasol iddi, ac ymrwymadau ar gyfer gwella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Ar ôl cyflwyno cynllun mynediad a ffioedd, mae'n rhaid i sefydliad dangos ei fod yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol a gysylltir â sefydliad a reoleiddir, sef y rhai a restrir isod:

- ei fod yn sefydliad,
- ei fod wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru,
- ei fod yn darparu addysg uwch,
- ei fod yn elusen,
- ei fod yn hyfyw yn ariannol,
- ei fod wedi'i reoli'n dda yn ariannol,
- ei fod yn darparu addysg o ansawdd.

2.1.2. Yn yr adran hon o'r adroddiad, disgrifir y modd y mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd hyd at 31 Gorffennaf 2020, gan gynnwys:

- Datblygu ei brosesau ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Ffioedd cyn y cyfnod adrodd,
- Cymeradwyo neu wrthod Cynlluniau Mynediad a Ffioedd,
- Sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau ffioedd perthnasol, a
- Monitro cydymffurfiaeth â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.

2.1.2 Fel y soniwyd yn y rhagarweiniad, rydym wedi diwygio ein prosesau rheoleiddio, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd. Adlewyrchir hyn yn ein hadroddiad isod.

2.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd (2019/20)

2.2.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio sut yr aethom ati i gyflawni ein holl swyddogaethau yn gysylltiedig â Chynlluniau Mynediad a Ffioedd. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

Monitro a Gwerthuso Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2018/19

2.2.2 Yn dilyn ein gwaith yn monitro a gwerthuso Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2018/19 gallwn gadarnhau bod yr holl sefydliadau a reoleiddir wedi cymryd pob cam rhesymol

i gydymffurfio â gofynion cyffredinol eu Cynlluniau Mynediad a Ffioedd perthynol ar gyfer 2018/19.

- 2.2.3 Wrth lunio'r asesiad hwn, rydym wedi dadansoddi adroddiadau a gyflwynwyd gan bob sefydliad a reoleiddir yn disgrifio'r modd y mae wedi cydymffurfio â lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol y Cynllun Mynediad a Ffioedd, ac wedi gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun hwnnw. Rydym hefyd wedi adolygu cwynion i CCAUC ynghylch sefydliadau, wedi dadansoddi data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ac wedi dadansoddi data'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

Meysydd i'w Gwella

- 2.2.4 Rydym wedi nodi bod angen i sefydliadau roi tystiolaeth gliriach i ddangos sut mae eu buddsoddiad yn cael effaith gadarnhaol ar y grwpiau hynny o fyfyrwyr a nodwyd gan sefydliadau yn fyfyrwyr wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch. Mae deialog yn parhau â sefydliadau i oleuo ein dealltwriaeth o hyn.
- 2.2.5 Gwnaethom gomisiynu AU Ymlaen i adolygu'r fframweithiau a ddefnyddir gan sefydliadau yng Nghymru i'w galluogi i werthuso effeithiolrwydd Cynlluniau Mynediad a Ffioedd. Mae'r adolygiad hwn wedi cael ei gyhoeddi a'i ddwyn i sylw sefydliadau a reoleiddir. Buom yn ymgynghori ar gyhoeddi egwyddorion ac argymhellion a gyhoeddwyd yn yr adolygiad fel gwybodaeth a chynghor i'w ystyried gan sefydliadau a reoleiddir wrth gyflwyno Cynlluniau Mynediad a Ffioedd. Gohiriwyd yr ymgynghoriad hwn oherwydd effaith Covid-19, ac rydym yn disgwyl yr adeg briodol i ailgychwyn yr ymgynghoriad hwn.

Cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2021/22

- 2.2.6 Cawsom ddeg cais am Gynlluniau Mynediad a Ffioedd ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 yn ystod 2019/20. Anfonwyd y rhain o wyth prifysgol a dau goleg addysg bellach sydd wedi cael eu rheoleiddio ers gweithredu Deddf 2015.
- 2.2.7 Cafodd ceisiadau Cynllun Mynediad a Ffioedd 2021/22 eu cymeradwyo, yn erbyn meini prawf a gofynion a bennwyd ymlaen llaw, ym mis Mai 2020. Yn rhan o'n diwygiadau i brosesau rheoleiddio mewn ymateb i bandemig Covid-19, cafodd y Cynlluniau eu cymeradwyo ar y sail eu bod naill ai'n nodi neu'n pennu'r lefelau ffioedd i'w codi yn 2021/22 ac yn ymrwymo i wella cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. Drwy gyflwyno'r cynlluniau a'n hymgysylltiad parhaus â sefydliadau, cawsom hefyd sicrwydd fod prosesau llywodraethu boddhaol ar waith, yn ogystal â chytundebau partneriaeth myfyrwyr.
- 2.2.8 Wrth gyfleu ein cymeradwyaeth ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Ffioedd, dywedwyd wrth bob sefydliad ein bod yn disgwyl gallu trafod ein dadansoddiad llawn o'r Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Byddai'r trafodaethau hyn, yn seiliedig ar waith y Pwyllgor Rheoleiddio i graffu ar Gynlluniau Mynediad a Ffioedd, yn rhoi sicrwydd ychwanegol ynghylch ymyraethau sefydliadau i gyflawni amcanion Cynlluniau Mynediad a Ffioedd sefydliadau yn 2021/22.
- 2.2.9 Adroddir ar ganlyniadau ein trafodaethau â sefydliadau yn ein hadroddiad rheoleiddio nesaf sy'n trafod canlyniadau'r modd y cyflawnwyd ein swyddogaethau yn ystod 2020/21.

- 2.2.10 Roedd hi'n ofynnol i sefydliadau gyhoeddi, ar eu gwefan, yr adran o'u Cynllun Mynediad a Ffioedd a oedd yn ymwneud â lefelau ffioedd. Disgwyliwyd y byddai Cynllun Mynediad a Ffioedd 2021/22 gwahanol yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2020/21.

Cydymffurfio â lefelau ffioedd

- 2.2.11 Ni chaiff sefydliadau a reoleiddir ond codi lefelau ffi a nodir mewn cynlluniau mynediad a ffioedd a gymeradwywyd gan CCAUC ar gyfer darpariaeth cyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC. Ar ôl i gynlluniau mynediad a ffioedd gael eu cymeradwyo rydym yn rhannu manylion y lefelau ffioedd cymeradwy gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Mae lefelau ffioedd yn amrywio.
- 2.2.12 Rydym wedi monitro'r lefelau ffioedd ar gyfer y ddarpariaeth gradd amser llawn a TAR SAC sydd wedi'i nodi yng Nghynlluniau Mynediad a Ffioedd 2019/20 drwy ddadansoddi data'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, y cwynion a dderbyniwyd a'r trafodaethau gyda sefydliadau a reoleiddir.

2.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

- 2.3.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn datgan y canlyniadau o fod wedi cyflawni swyddogaethau rheoleiddiol fel maent yn berthnasol i gynlluniau mynediad a ffioedd. Mae'r adran hon yn trafod canlyniadau cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd a'n gwaith i fonitro cydymffurfiaeth a lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol cynlluniau mynediad a ffioedd.

Canlyniadau cymeradwyo Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

- 2.3.2 Mae'r holl gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy wedi cynnwys grwpiau sydd wedi'u datgan fel rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Bydd sefydliadau'n nodi gwahanol grwpiau fel grwpiau wedi'u tangynrychioli yn ôl eu cenhadaeth a'u diben, ac mae'r grwpiau a restrir isod yn enghreifftiau o'r grwpiau a gefnogir drwy'r buddsoddiad cyfle cyfartal yr ymrwymir iddo mewn Cynlluniau Mynediad a Ffioedd:
- pobl o bob oed sy'n byw yn ardaloedd Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a arferai gael ei gweithredu gan Lywodraeth Cymru,
 - pobl o bob oedran sy'n byw yng nghwintel isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru,
 - pobl o bob oedran sy'n byw yn ardaloedd cyfranogiad isel [UK POLAR3](#),
 - pobl ifanc sydd wedi profi'r system ofal,
 - pobl o bob oed â chyfrifoldebau gofalu,
 - pobl o bob oed â [nodweddion gwarchoddedig](#),
 - pobl o bob oed o gefndir incwm isel, a
 - phobl o bob oed sy'n dymuno astudio addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canlyniadau monitro cydymffurfiaeth â lefelau ffioedd

- 2.3.3 Yn sgil cyflawni ein swyddogaethau i fonitro lefelau ffioedd a godir mewn sefydliadau a reoleiddir, nid ydym wedi canfod unrhyw achos lle cododd sefydliadau a reoleiddir ffioedd gormodol am gyrsiau gradd amser llawn a TAR SAC yn ystod 2019/20.

Canlyniadau monitro cydymffurfiaeth â gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

2.3.4 Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw achos lle nad yw sefydliad a reoleiddir wedi cydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynllun Mynediad a Ffioedd cytunedig 2019/20.

2.3.5 Yn 2019/20, ni chawsom unrhyw gwynion ynghylch cydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynlluniau Mynediad a Ffioedd.

2.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

2.4.1 Nid oes unrhyw sefydliad a reoleiddir wedi methu cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio cysylltiedig â chynllun mynediad a ffioedd. Gan hynny, nid oes unrhyw achosion o ymyrryd i adrodd amdanynt.

2.5 Datblygu Prosesau Rheoleiddio

2.5.1 Yn ystod 2019/20, rhoddwyd templed o Gynllun Mynediad a Ffioedd i sefydliadau a reoleiddir am y tro cyntaf, i gysoni Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yng Nghymru a helpu i greu mwy o eglurder ynghylch ein disgwyliadau ar gyfer y Cynlluniau hynny.

Adran 3 – Ansawdd yr Addysg

3.1 Cyflwyniad

- 3.1.1 O dan Ddeddf 2015, mae'n ofynnol i CCAUC asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan, neu ar ran, bob sefydliad a reoleiddir. Mae Deddf 2015 yn rhoi pwerau i CCAUC weithredu ynghylch darpariaeth sy'n annigonol, neu'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol, gan ddiffinio digonolrwydd fel diwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'n dilyn y cwrs.
- 3.1.2 Efallai y bydd CCAUC yn cyhoeddi neu'n cymeradwyo cyfarwyddyd ynghylch gwella neu gynnal ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir, ac ynghylch meini prawf ar gyfer asesu ansawdd. Cyn cyhoeddi neu gymeradwyo cyfarwyddyd o'r fath, bydd yn rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad a reoleiddir ac unrhyw unigolion eraill a dybir yn briodol ym marn CCAUC. Roedd yn ofynnol hefyd i CCAUC sefydlu [Pwyllgor Asesu Ansawdd](#) (PAA) i gynghori ynghylch ei swyddogaethau cysylltiedig ag ansawdd o dan Ddeddf 2015. Mae ein PAA wedi rhoi cyngor i'r Cyngor ar faterion sydd wedi'u datgan yn yr adroddiad hwn sy'n berthnasol i ansawdd.
- 3.1.3 Yn yr adran hon o'r adroddiad disgrifir y modd yr aethom ati i gyflawni ein swyddogaethau ansawdd dros y cyfnod adrodd, hyd 31 Gorffennaf 2020, yn ogystal â chanlyniadau'r swyddogaethau hynny, o ran penderfynu a yw sefydliadau a reoleiddir wedi cydymffurfio â'r system reoleiddiol.

3.2 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl

- 3.2.1 O dan Ddeddf 2015, mae'n ofynnol i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad a reoleiddir, ac unrhyw bersonau eraill fel maent yn gweld yn briodol, cyn cyhoeddi neu gymeradwyo cyfarwyddyd mewn perthynas ag ansawdd.
- 3.2.2 Yn yr adran hon, disgrifir y modd yr aethom ati i gyflawni ein swyddogaethau ansawdd yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20.

Adolygiadau allanol

- 3.2.3 Comisiynwyd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch gan Brifysgolion Cymru i gynnal yr adolygiadau sicrhau a gwella ansawdd allanol i fodloni gofynion y Fframwaith. Pwrpas yr adolygiadau hyn oedd bodloni budd y cyhoedd a sicrhau bod y safonau ansawdd yn bodloni'r gofynion rheoleiddio sylfaenol.

Ymweliadau teirblynyddol

- 3.2.4 Yn rhan o gyfrifoldebau CCAUC o dan y Fframwaith, bydd CCAUC yn cynnal ymweliad bob tair blynedd â phob sefydliad a reoleiddir, ac yn adrodd ar ei ganfyddiadau. Mae hyn yn canolbwyntio ar y datganiadau sicrwydd ansawdd blynyddol sy'n cael eu llofnodi gan y corff llywodraethu. Bydd pob sefydliad sy'n derbyn ymweliad yn cael cyfle i adolygu'r adroddiad er mwyn sicrhau ei fod yn gywir cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'i ddefnyddio gan Gyngor CCAUC yn rhan o'i Ymweliad â'r Sefydliad. Roedd canlyniadau'r adolygiadau'n cael eu bwydo i brosesau eraill CCAUC, gan gynnwys cynlluniau mynediad a ffioedd a'r broses o adolygu risg sefydliadau yn flynyddol.

Cwynion

- 3.2.5 Gwnaethom adolygu cwynion a wnaed gan fyfyrwyr ynghylch sefydliadau yng Nghymru wrth Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn 2019. Roedd y PSA yn fodlon â'r diweddariad. Nododd y Pwyllgor fod dau SAU yng Nghymru wedi cyhoeddi llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a oedd yn uwch na chanolrif y band, ond dywedodd nad oedd angen i CCAUC gymryd unrhyw gamau pellach. Nododd y Pwyllgor hefyd fod mynychder y cwynion ymhlith myfyrwyr doethuriaeth yn uwch na'r disgwyl. Yr oedd yn cydnabod ei bod hi'n bwysig i CCAUC barhau i ymgysylltu â sefydliadau ynghylch cwynion myfyrwyr drwy ymweliadau sicrwydd teirblynyddol.

Ansawdd sy'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol

- 3.2.6 Mae gan CCAUC gyfrifoldebau o dan Ddeddf 2015 mewn perthynas â darpariaeth sy'n 'debygol o ddatblygu i fod' yn annigonol. Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori a gynhelir yn 2017/18, cyhoeddwyd gweithdrefnau CCAUC [ar gyfer asesu ansawdd addysg](#) ym mis Mawrth 2019. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau hyn yn ystod 2019/20.

Diwygiadau i'r Fframwaith Asesu Ansawdd

- 3.2.7 Cyhoeddwyd Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru yn y cyfnod adrodd blaenorol er mwyn rhoi mecanweithiau i CCAUC ei sicrhau ei hun fod ansawdd addysg, neu gwrs addysg, a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir yn bodloni anghenion y rhai sy'n ei dderbyn. Datblygwyd y fframwaith i gyd-fynd â Deddf 2015 ac i roi ystyriaeth i newidiadau rheoleiddiol. Diweddarwyd y Fframwaith Asesu Ansawdd yn 2019/20 i ystyried datganiad sicrwydd ychwanegol ar gyfer y corff llywodraethu, ac fe'i hailgyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020.

3.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

- 3.3.1 Yn yr adran hon nodir canlyniadau gweithgareddau a gynhaliwyd yn sgil cyflawni ein swyddogaethau ansawdd i asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd mewn sefydliadau a reoleiddir.
- 3.3.2 Cafodd un Adolygiad Gwella Ansawdd o sefydliad a reoleiddir ei gynnal gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Roedd y canlyniad yn foddhaol. Gohiriwyd dau adolygiad arall hyd 2020/21 oherwydd pandemig Covid-19. Cynhaliwyd un Adolygiad Ansawdd Porth a bu'n llwyddiannus.
- 3.3.3 Cynhaliwyd dau ymweliad teirblynyddol, ym mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020. Gohiriwyd trydydd ymweliad oherwydd Covid-19. Cafodd CCAUC sicrwydd ar y cyfan o'r canlyniadau. Gwnaeth CCAUC nifer o arsylwadau ac argymhellion yn sil yr ymweliadau hyn, gan gynnwys:
- Cryfhau'r sicrwydd a roddir gan y Corff Llywodraethu i CCAUC.
 - Sicrhau bod gan y Corff Llywodraethu ac Undeb y Myfyrwyr drosolwg systematig o lais y myfyriwr mewn sefydliadau partner.
- 3.3.4 Ni chychwynnodd CCAUC unrhyw ymchwiliadau ynghylch ansawdd sy'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol yn 2019/20. Cafodd y ddau ymchwiliad a oedd yn weddill o 2018/19 eu cwblhau yn 2019/20, ac fe'u hystyriwyd gan PSA. Roedd

CCAUC yn fodlon bod unrhyw broblemau wedi'u datrys ac felly nad oedd unrhyw ddarpariaeth yn annigonol, neu'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol.

- 3.3.5 Yn 2019/20, derbyniodd CCAUC dair cwyn ynghylch ansawdd. Nid oedd un gŵyn yn gymwys i'w hystyried ymhellach gan na ddarparwyd digon o dystiolaeth, ac oherwydd methiant i gwblhau gweithdrefnau sefydliadol. Cynhaliwyd ymchwiliadau rhagarweiniol ar gyfer y ddwy gŵyn sy'n weddill. Caewyd un gŵyn ar ôl derbyn dystiolaeth foddhaol gan y sefydliad yn cadarnhau nad oedd unrhyw broblem systematig yn gysylltiedig ag ansawdd, ac mae'r gwyn olaf yn dal i fod ar agor gan ddisgwyl ystyriaeth bellach o'r dystiolaeth. Disgwyliwyd y byddai hyn yn cael ei gwblhau yn 2020/21.

3.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

- 3.4.1 Nid oedd unrhyw fethu cydymffurfio â'r system reoleiddiol fel mae'n berthnasol i ansawdd ac, o ganlyniad, ni wnaethom ddefnyddio ein swyddogaethau ymyrraeth.

Adran 4 – Materion Ariannol Sefydliadau a Reoleiddir

4.1 Cyflwyniad

- 4.1.1 Dywed Adran 27(1) Deddf 2015 ei bod yn ofynnol i CCAUC baratoi a chyhoeddi cod perthnasol i sefydlu a rheoli materion ariannol sefydliadau a reoleiddir. Dywed Adran 27(2) 'Gall y Cod wneud darpariaeth ar gyfer y materion canlynol (ymhlith eraill):
- yr amgylchiadau pan fo sefydliad a reoleiddir yn gwneud trafodiad mewn dosbarth a nodir yn y Cod gyda chaniatâd CCAUC yn unig,
 - trefniadau cyfrifyddu ac archwilio sefydliadau a reoleiddir, a
 - darparu gwybodaeth i CCAUC.'
- 4.1.2 Dywed Adran 27(4) Deddf 2015 ei bod yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad a reoleiddir wneud y canlynol:
- cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a orfodir gan y Cod, ac
 - ystyried unrhyw gyfarwyddyd a geir yn y Cod.
- 4.1.3 Yn yr adran hon o'r adroddiad, disgrifir y modd y buom yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cod yn 2019/20.
- 4.1.4 Fel y soniwyd yn y rhagarweiniad, rydym wedi diwygio ein prosesau rheoleiddio, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol sefydliadau a reoleiddir. Adlewyrchir hyn yn ein hadroddiad isod.

4.2 Cyflawni swyddogaethau yn 2019/20

Monitro Cyllid

- 4.2.1 Buom yn monitro cyllid, gan gynnwys adolygu datganiadau ariannol a rhagolygon ariannol manwl pob sefydliad. Yn ystod y cyfnod adrodd, dadansoddwyd rhagolygon ariannol ddiwedd haf 2019 a datganiadau ariannol ar ddechrau 2020. Buom yn ymgysylltu'n rheolaidd â thimau cyllid, bob tymor o leiaf. Yn ogystal â hynny, dadansoddwyd diweddariadau rhagolygon ariannol yng ngwanwyn 2020 fel rhan o broses ymgeisio Cynlluniau Mynediad a Ffioedd 2021/22. Bu CCAUC hefyd yn monitro cwynion a gafodd o dan ei broses gwynion ynghylch gweithdrefnau sefydliadau lle'r oedd posibilrwydd i hynny effeithio ar gydymffurfiaeth â'r Cod.
- 4.2.2 Buom yn adolygu lefelau benthyca sefydliadau yn erbyn trothwyon cytunedig, a lle'r oedd sefydliadau'n dymuno ymrwymo i fenthyca mwy na'r trothwyon hyn cynhaliom broses ffurfiol a oedd yn cynnwys craffu ar gyllid a phrosesau llywodraethu er mwyn penderfynu a oedd cynigion yn briodol.
- 4.2.3 Roedd Covid-19 yn achosi risg i bob sefydliad. Gan hynny, o fis Mawrth 2020 buom yn ymgysylltu â sefydliadau mewn modd a adlewyrchai'r gwaith ymgysylltu a fyddai'n digwydd pe bai lefel 'risg uchel' wedi'i ddyfarnu mewn adolygiad risg sefydliadol. Roedd hyn yn cynnwys ceisiadau am ddiweddariadau ariannol manwl pellach a chynnydd yn yr ymgysylltu â thimau cyllid.

Adolygiadau Sicrwydd Sefydliadol

- 4.2.4 Buom yn cyflawni gwaith adolygu sicrwydd sefydliadol yn gysylltiedig â phob sefydliad a reoleiddir yng Nghymru. Ffocws yr adolygiadau hyn oedd canfod tystiolaeth o gadernid trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r sefydliadau eu

hunain. Buom yn chwilio am y dystiolaeth hon, yn benodol, drwy'r sicrwydd a'r farn a ddarparwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol y sefydliadau eu hunain, ac adroddiadau eu Pwyllgorau Archwilio. Roedd trafodaethau â phersonél allweddol yn y sefydliadau'n rhan hanfodol o'n gwaith adolygu sicrwydd. Cawsom hefyd gwrdd ag archwilwyr mewnol y sefydliadau. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd swyddogion ddau ymweliad ffurfiol cynlluniedig i adolygu sicrwydd sefydliadol. Gohiriwyd un ymweliad adolygu sicrwydd sefydliadol rhwng 2019/20 a 2020/21, oherwydd Covid-19. Cynhaliwyd yr ymweliad hwnnw'n ddiweddarach, gan gynnal yr holl gyfweiliadau yn rhithiol.

Adolygiadau Risg Sefydliadol

4.2.5 Drwy ein proses Adolygu Risg Sefydliadol (ARS), cynhaliom asesiadau risg ffurfiol ddwywaith y flwyddyn o sefydliadau a reoleiddir. Defnyddiwyd amrywiaeth o wybodaeth o'r ffurflenni data diweddaraf ac o ymgysylltiad y Cyngor a swyddogion â sefydliadau i asesu risg pob un yn erbyn chwe maes allweddol - Llywodraethu a Rheoli; Cyllid; Cyfeiriad Strategol; Trosglwyddo Gwybodaeth ac Ymchwil; Myfyrwyr ac Ansawdd; ac Ystadau. Cynhaliwyd asesiad cyffredinol ar gyfer barnu a oedd cysylltiad pob sefydliad â risg yn 'Isel', 'Cymedrol' neu 'Uchel' (Sylwer, hydref 2019 yn unig, gweler isod). Mae'r diffiniadau o'r categorïau risg hyn fel a ganlyn:

- Risg isel: Nid yw'n debygol y bydd y sefydliad yn methu cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol.
- Risg gymedrol: Mae'r sefydliad wedi methu, neu gall fethu, cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol yn y tymor byr i ganolig, ond nid yw effaith hyn yn arwain at bryderon cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Risg uchel: Mae'r sefydliad wedi, neu'n debygol o fethu, cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol dros y tymor byr i'r tymor canolig, ac mae effaith hyn yn arwain at bryderon cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

4.2.6 Cynhaliwyd ARS interim gennym yn hydref 2019, a bu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y canlyniadau ym mis Rhagfyr 2019 a'r Cyngor ym mis Ionawr 2020. Cynhaliwyd ARS llawn yng ngwanwyn 2020, a bu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried canlyniadau'r ARS llawn ym mis Mehefin 2020 a'r Cyngor yn gwneud hynny ym mis Gorffennaf 2020. Fel y nodwyd yng nghylchlythyr effaith Covid-19 ar ddarparwyr addysg uwch: goblygiadau cyllido, rheoleiddio ac adrodd (W20/11HE), ni arweiniodd proses yr ARS at ddyfarnu sgoriau neu anfon llythyrau ARS i sefydliadau yn 2020. Yn lle hynny, defnyddiwyd y broses i gipio meysydd gwybodaeth allweddol a nodi camau gweithredu i swyddogion CCAUC. Roedd Covid-19 yn achosi risg i bob sefydliad, ac oherwydd hynny roedd ein hymgysylltiad â sefydliadau'n adlewyrchu'r gwaith ymgysylltu pe bai lefel 'risg uchel' yn cael ei dyfarnu mewn adolygiad.

4.2.7 Sefydlodd y Cyngor hefyd gyfres o ymweliadau sefydliadol ffurfiol lle'r oedd aelodau'r Cyngor a swyddogion yn cyfarfod â phob sefydliad unwaith bob tair blynedd o leiaf, gan roi cyfle ychwanegol i drafod materion strategol â llywodraethwyr ac uwch reolwyr. Ymwelwyd ag un sefydliad a reoleiddir yn 2019/20.

Y Cod Rheolaeth Ariannol

4.2.8 Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC adolygu'r Cod yn barhaus ac, os yw'n briodol, paratoi a chyhoeddi Cod diwygiedig. Adolygwyd y Cod yn 2019/20 ac ni nodwyd unrhyw ddiwygiadau.

4.3 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

- 4.3.1 Mae'r adran hon yn datgan canlyniadau ein monitro ar gydymffurfiaeth â'r Cod yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl.
- 4.3.2 Cawsom sicrwydd bod yr holl sefydliadau'n cydymffurfio â gofynion ariannol y Cod. Cawsom y sicrwydd hwn drwy ymgysylltu a chraffu.
- 4.3.3 Cynhaliom adolygiad o ddau gais am fenthyciad gan ddau sefydliad yn 2019/20. Cafodd yr holl geisiadau am fenthyciad eu cymeradwyo.
- 4.3.4 O ganlyniad i Covid-19, gwnaethom gynyddu lefelau'r ymgysylltu ag Uwch Dimau Rheoli'r holl sefydliadau, er mwyn cael sicrwydd eu bod yn mynd i'r afael â'r risgiau'n gysylltiedig â Covid-19 ar fyrder, ac mewn modd priodol. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu misol rheolaidd â Chyfarwyddwyr Cyllid i ddeall a monitro darpariaeth cynlluniau i wella cynaliadwyedd ariannol a monitro llif arian ychwanegol.
- 4.3.5 Yn 2019/20, cafodd CCAUC 3 cwyn ynghylch materion honedig a allai fod yn achosion o fynd yn groes i'r Cod.

4.4 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

- 4.4.1 Cyflawnwyd ymyrraeth anffurfiol mewn un sefydliad o ganlyniad i achos difrifol o dorri'r Cod Rheolaeth Ariannol (CRhA) yn 2018/19. Parhaodd swyddogion CCAUC i fonitro'r cynllun gweithredu i ymdrin â'r materion a nodwyd yn ystod 2019/20, er mwyn sicrhau ymdriniaeth briodol â'r materion.
- 4.4.2 Nid oedd unrhyw achosion o fod angen ymyrraeth ffurfiol mewn perthynas â methu cydymffurfio, neu debygolrwydd o fethu cydymffurfio, â'r Cod Rheolaeth Ariannol yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl.

Adran 5 – Datganiad Ymyrraeth

- 5.1 Mae [Datganiad Ymyrraeth](#) llawn wedi'i sefydlu. Mae'r Datganiad yn amlinellu pwerau ymyrraeth CCAUC o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.
- 5.2 Mae Pwyllgor Rheoleiddio CCAUC yn parhau i adolygu'r Datganiad Ymyrraeth, a chytunwyd y dylid cyflwyno mân ddiwygiadau ynghyd ag unrhyw newidiadau sylweddol sydd eu hangen er mwyn caniatáu naws rheoleiddio CCAUC, ar ôl iddo gael ei sefydlu. Rhagwelir y bydd unrhyw ddiwygiadau'n cael eu cyflwyno'n ddiweddarach yn 2021, ac y bydd yr ymgynghoriad gofynnol yn cael ei gynnal ar newidiadau.

Adran 6 – Datganiad Sicrwydd

- 6.1 Mae'r adran hon yn rhoi datganiad sicrwydd blynyddol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC neu'r Cyngor) i Lywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth y sefydliadau a reoleiddir gyda'r system reoleiddiol sydd wedi'i datgan yn Neddf 2015 ac mae'n tynnu sylw at unrhyw feysydd o bryder neu risg.
- 6.2 Yn ôl asesiad y Cyngor, bu cydymffurfiaeth y sefydliadau â'r gofynion rheoleiddiol a orfodir gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, ar draws y sector a reoleiddir, yn foddhaol ar y cyfan. Os tynnwyd sylw at broblemau penodol yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Cyngor wedi mynd ar drywydd y problemau hynny'n drwyadl gyda'r sefydliadau dan sylw, fel y nodwyd uchod.